Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Bro Idris

Dolgellau
Gwynedd
LL40 1HY

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Bro Idris

Enw'r darparwr	Ysgol Bro Idris
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog
Math o ysgol	Pob oed, 3-16
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	528
Disgyblion o oedran ysgol statudol	455
Nifer yn y chweched dosbarth	0
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin	47
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector pob oed yw 18.9%)	10.40%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector pob oed yw 8.1%)	10.10%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	56.70%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.00%
Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy

Dyddiad penodi'r pennaeth	01/04/2016
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	09/12/2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	21/09/2026

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae Ysgol Bro Idris yn gymuned pob oed gynhwysol a gofalgar ble mae lles, parch ac ymdeimlad cryf o berthyn yn ganolog i fywyd yr ysgol. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch at eraill. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddiried yn y staff i ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, gan ddarparu cymorth effeithiol i'r rhai sydd ei angen. Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ac mae cefnogaeth addas ar waith er mwyn cefnogi'r disgyblion i fynychu'r ysgol yn gyson. Er hyn, nid yw'r ymyraethau hyn bob amser yn cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion oedran uwchradd, yn enwedig.

Mae llawer o athrawon yn darparu sesiynau trefnus gyda chyfarwyddiadau clir ac adnoddau priodol sy'n helpu disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd addas. Yn y sesiynau gorau, mae'r athrawon yn gosod disgwyliadau uchel iawn, yn defnyddio cyd-destunau diddorol a pherthnasol ac yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw lefel yr her yn addas, ac mae gormod o arweiniad gan athrawon yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i feddwl a gweithio'n annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu priodol. Mae llawer yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae'r ysgol yn hyrwyddo darllen er pleser yn effeithiol trwy gynlluniau darllen penodol, defnydd effeithiol o'r llyfrgell a gweithdai gydag awduron a beirdd lleol. Mae medrau rhifedd a digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, hefyd. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu'u huwch fedrau darllen, eu hysgrifennu estynedig a medrau rhifedd a digidol mwy soffistigedig yn gynyddol dros amser.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi pwyslais cryf ar Gymreictod, treftadaeth leol a datblygiad personol disgyblion. Mae ystod eang o ymweliadau, ymwelwyr a phrofiadau gwaith yn cyfoethogi'r dysgu ac yn cysylltu'r cwricwlwm â'r byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy wahanol bwyllgorau sydd yn cael eu harwain gan ddisgyblion.

Mae'r pennaeth yn arwain Ysgol Bro Idris gyda gweledigaeth glir ac ymrwymiad cryf i les, parch a chynhwysiant, gan sicrhau bod yr ysgol yn gymuned hapus a chefnogol ar draws y chwech safle. Gyda chefnogaeth tîm arwain brwdfrydig, mae ymdeimlad cadarn o waith tîm ar draws pob safle ac mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel un sefydliad pob oed. Mae arweinwyr yn cydweithio'n rheolaidd i werthuso a gwella'r ddarpariaeth. Er hyn, nid

yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant bob amser yn ffocysu'n ddigon penodol ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a medrau disgyblion. Rhoddir pwyslais llwyddiannus ar hyrwyddo'r Gymraeg, cefnogi lles disgyblion a lleihau effeithiau tlodi. Mae perthnasoedd cryf â theuluoedd yn helpu disgyblion i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd yr ysgol.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Cryfhau a chysoni agweddau penodol o'r addysgu a amlygir yn yr adroddiad

A2 Sicrhau bod y disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol dros amser

A3 Gwella presenoldeb, yn enwedig presenoldeb disgyblion o oedran uwchradd

A4 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant er mwyn ffocysu'n fanylach ar effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Addysgu a dysgu

Mae'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng disgyblion a staff Ysgol Bro Idris yn gryfder nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae'r parch a ddangosant at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr yn rhinwedd arbennig.

Mae llawer o athrawon yn cynnig cyfarwyddiadau ac esboniadau clir yn y sesiynau gan ddefnyddio terminoleg ac iaith berthnasol. Mae llawer o'r disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud, maent yn dyfalbarhau'n ddiwyd ac yn canolbwyntio'n dda. Mae llawer yn adalw gwaith blaenorol yn briodol ac yn cofio geirfa allweddol yn dda. Mewn llawer o sesiynau, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn cynllunio gwersi trefnus gyda gweithgareddau ac adnoddau priodol, sy'n aml yn adeiladu'n addas ar ddysgu blaenorol. Maent yn defnyddio cwestiynau caeedig syml i wirio dealltwriaeth ac yn symud o gwmpas y dosbarth i asesu gwaith disgyblion, gan ddarparu cymorth amserol. Mae lefel yr her a chyflymder y dysgu yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a chyson, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gyd-destunau dilys, cyfoes a pherthnasol sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio'n effeithiol iawn i adeiladu ar ddysgu blaenorol, gan ddefnyddio tasgau adalw mewn ffordd sy'n cysylltu'n bwrpasol â'r dysgu newydd. Maent yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio gyda thestunau mwy heriol sy'n ehangu eu profiadau ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol. Trwy fodelu disgwyliadau yn effeithiol, mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau holi yn grefftus er mwyn annog disgyblion i egluro, cyfiawnhau ac ymestyn eu hymatebion.

Mewn lleiafrif o sesiynau ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent. Mae lleiafrif y disgyblion yn rhy oddefol oherwydd bod athrawon yn aml yn gor-gyfarwyddo'r dysgu. O ran y disgyblion ieuengaf, mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw'r cyfleoedd i ddysgu drwy chwarae, archwilio a darganfod, y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarth, yn ddigon cyson i ddatblygu eu hannibyniaeth yn gynyddol. Mewn lleiafrif o sesiynau ar draws yr ystod oedran, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel nac yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion ar draws yr ystod gallu, yn gyson. Er enghraifft, mae tasgau'n rhy syml neu mae cyflymder y dysgu yn rhy araf. Nid yw'r athrawon hyn bob amser yn addasu'r gwaith yn ddigon effeithiol i ddiwallu anghenion

gwahanol ddisgyblion, gan gynnwys darparu cefnogaeth briodol i'r rhai sydd ei hangen a her ddigonol i ddisgyblion mwy abl. Nid yw esboniadau na chwestiynau'r athrawon hyn bob amser yn ddigon clir nac yn annog disgyblion i egluro, cyfiawnhau, rhesymu a meddwl yn ddyfnach. Yn ogystal, nid yw'r athrawon hyn bob amser yn adnabod camsyniadau disgyblion yn fuan nac yn addasu'r addysgu i ymateb i hynny.

Yn yr achosion gorau, mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n nodi camau nesaf priodol ar waith disgyblion sydd yn eu helpu i wella eu gwaith. Fodd bynnag, mae adborth ysgrifenedig yn aml yn rhy gyffredinol, nid yw camsyniadau a gwallau pwysig, gan gynnwys gwallau llythrennedd, yn cael eu cywiro, ac nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd priodol i ymateb i'r adborth a gwella eu gwaith.

Ar draws yr ystod oedran, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando da. Maent yn gwrando'n astud ar staff a chyfraniadau eu cyfoedion ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn siarad yn naturiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a chystrawennau. Yn yr arferion gorau, mae disgyblion yn caffael medrau iaith drwy ystod o rigymau a chaneuon, gyda llawer yn ymuno yn y canu yn frwdfrydig. Mae lleiafrif yn cyfathrebu'n arbennig o hyderus yn y Gymraeg, gan drafod eu syniadau yn frwdfrydig a defnyddio ystod eang o eirfa.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn defnyddio eu medrau llafar yn bwrpasol, er enghraifft wrth drafod syniadau mewn grwpiau, gan ddefnyddio geirfa bynciol addas. Mae lleiafrif yn cyfathrebu'n arbennig o hyderus yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau yn gynyddol aeddfed. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r disgyblion oedran uwchradd yn darparu cyfraniadau llafar estynedig ac, yn rhy aml, mae hyn oherwydd nad yw holi athrawon yn ddigon treiddgar.

Ffocws ar ddarllen

Mae arweinwyr a staff yn hybu darllen er pleser drwy amryw strategaethau, gan gynnwys cynlluniau darllen penodol, y clwb darllen yn y llyfrgell a chyfleoedd i ddarllen yn unigol ar ddechrau sesiynau. Mae'r ysgol yn trefnu bod awduron a beirdd yn ymweld yn gyson er mwyn sbarduno'r disgyblion i fwynhau darllen. O ganlyniad, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau cyn-ddarllen effeithiol ac yn defnyddio eu medrau darllen yn naturiol mewn gweithgareddau dosbarth.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion oed cynradd yn darllen geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn defnyddio strategaethau addas i ddatgodio geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn darllen ar goedd gyda chywirdeb cynyddol a mynegiant pwrpasol. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn

ei ddarllen ac mae llawer yn trafod llyfrau ac awduron gyda brwdfrydedd, ac yn darllen deunydd cyfoes a'i grynhoi i'w cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn dadansoddi ystyr amryw destunau darllen ffeithiol a ffuglennol yn gywir yn y sesiynau Cymraeg a Saesneg, gan adnabod a dadansoddi effaith technegau arddull yn gynyddol effeithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, prin yw'r cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen tu hwnt i'r adrannau Cymraeg a Saesneg.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu cyfres o frawddegau clir ac yn defnyddio nodweddion sylfaenol, fel priflythrennau ac atalnodau llawn, yn gywir. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn ffurfio brawddegau eglur, yn cystrawennu'n gywir ar y cyfan ac yn defnyddio atalnodi priodol. Yn yr arferion gorau, maent yn symud o ddefnyddio fframweithiau parod i gofnodi eu gwaith yn fwy annibynnol. Mae mwyafrif y disgyblion oedran uwchradd yn mynegi eu hunain yn lled gywir yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion gywiro gwallau sylfaenol yn eu gwaith. Ar draws yr ysgol, nid oes cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Rhifedd

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd yn briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o rif, mesur a siâp yn addas ac, wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn adalw gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus a'i defnyddio i ddatrys problemau mathemategol. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn arddangos ystod briodol o fedrau rhif sylfaenol ac maent yn datblygu dealltwriaeth addas o agweddau o fewn y meysydd rhif, siâp, algebra, data a thebygolrwydd.

Pan gânt gyfleoedd addas, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth, mae llawer yn dethol a thrin data yn briodol, yn cyflawni cyfrifiadau perthnasol ac yn llunio graffiau a siartiau addas. Ar brydiau, maent hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddod i gasgliadau syml synhwyrol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon annibynnol nac yn ddigon cynyddol. Yn rhy aml, mae gweithgareddau wedi'u gor-strwythuro ac mae llawer o'r cyfleoedd yn canolbwyntio ar gasglu neu gyflwyno data a chyflawni cyfrifiadau elfennol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis y dulliau mathemategol mwyaf priodol drostynt eu hunain, datrys problemau mewn cyd-destunau newydd, na dadansoddi a dehongli data yn ddigon manwl. Yn ogystal, nid yw disgyblion bob amser yn

cyflwyno data yn ddigon manwl gywir, er enghraifft wrth ddewis graddfeydd neu labelu graffiau.

Digidol

Ar draws yr ysgol, mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n addas. Mae mwyafrif y disgyblion oed cynradd yn defnyddio technoleg digidol yn hyderus ac yn gynyddol annibynnol. Maent yn defnyddio meddalwedd cyflwyno a phrosesu geiriau yn effeithiol ac yn llwyddo i gyfuno testun, delweddau, fideo a throslais. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion yn yr uwchradd yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth gynhyrchu a mireinio delweddau wrth greu logo newydd i Sesiwn Fawr Dolgellau. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion datblygu eu medrau digidol yn gynyddol, gan gynnwys eu medrau digidol mwy soffistigedig.

Medrau ehangach

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol, corfforol a meddwl priodol. Maent yn datblygu eu creadigrwydd drwy ystod o weithgareddau celfyddydol ac ymarferol yn addas. Maent yn defnyddio eu medrau meddwl i drafod syniadau, cyfiawnhau barn a gwneud rhagfynegiadau, ac yn datblygu medrau corfforol priodol mewn gweithgareddau penodol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn yn ddigon cyson na systematig ar draws yr ysgol.

Yn 2023-2024 a 2024-2025, roedd perfformiad disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 11 mewn llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn is na'r hyn a welwyd mewn ysgolion tebyg. Mae data'r ysgol ar gyfer 2025-26, sydd heb ei ddilysu, yn dangos cynnydd ar draws y dangosyddion hyn.

Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu Cymreictod ac ymdeimlad disgyblion o berthyn. At ei gilydd, ceir cyfleoedd pwrpasol iddynt ddysgu am hanes, diwylliant a threftadaeth eu hardal leol a Chymru, er enghraifft drwy drafodaeth grŵp 'oes dyfodol i'r Gymraeg yn Nolgellau?', neu drwy werthfawrogi cerddi sy'n ganeuon Cymraeg cyfoes. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'i chyd-destun fel ysgol pob oed i gyfoethogi profiadau disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 o'r pump safle cynradd yn cael profiadau buddiol drwy fynychu sesiynau wythnosol ar y prif safle. Mae'r sesiynau hyn yn darparu mynediad gwerthfawr at arbenigeddau athrawon ac offer pynciol, megis

sesiynau gwyddoniaeth yn y labordai. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd, staff a chyfoedion, sydd yn ei dro yn sicrhau prosesau trosglwyddo llyfn.

Cryfder amlwg y ddarpariaeth yw'r ystod eang o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr sy'n ehangu profiadau disgyblion ac yn cysylltu eu dysgu'n fuddiol â'u cynefin a'r byd ehangach. Mae'r cyfleoedd hyn yn ategu'r cwricwlwm ac yn dod â'r dysgu'n fyw. Enghraifft nodedig o hyn yw teithiau'r grwpiau TGAU amaeth i hufenfa leol ac ymweliadau â ffermydd yn yr ardal.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith a gyrfaoedd drwy ystod o gysylltiadau lleol a thu hwnt. Mae disgyblion Blwyddyn 10 yn elwa'n fawr o gwblhau cyfnod o brofiad gwaith. Ym Mlynyddoedd 10 ac 11, mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod briodol o ddewisiadau sy'n ymateb i ddiddordebau a dyheadau llawer o ddisgyblion. Mae'r bartneriaeth â'r coleg lleol yn ehangu'r ddarpariaeth yn fuddiol drwy gynnig cyrsiau galwedigaethol, er enghraifft mewn adeiladwaith, trin gwallt a busnes.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr yn ymateb yn fwriadus i ganfyddiadau holiaduron lles. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu dealltwriaeth o agweddau pwysig ar iechyd a lles, gan gynnwys perthnasoedd iach a rhywioldeb.

Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Bro Idris yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle rhoddir blaenoriaeth uchel i wella lles disgyblion. Mae diwylliant cadarn o ddiogelu yn bodoli ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn hapus ac maent yn ymddiried yn y staff i ymateb yn brydlon i unrhyw bryder.

Mae'r tîm lles yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod anghenion disgyblion ac addasu'r ddarpariaeth, yn ôl yr angen. Maent yn sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau wrth hyrwyddo lles disgyblion. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda iawn o'r disgyblion ac maent yn defnyddio'u hymwybyddiaeth, ynghyd ag ystod o ddata perthnasol, i ddarparu cymorth a chefnogaeth briodol iddynt. Mae hyn yn cynnwys ymyraethau pwrpasol sy'n cefnogi disgyblion bregus yn effeithiol. Mae'r Hafan yn darparu cymorth sydd wedi'i deilwra'n dda er mwyn cefnogi disgyblion gyda'u hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys datblygu medrau sylfaenol y disgyblion a chynnig cymorth pwrpasol er mwyn galluogi disgyblion i ymgymryd â bywyd a gwaith yr ysgol.

Dros gyfnod y pandemig, roedd y cwymp ym mhresenoldeb yr ysgol yn llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Mae presenoldeb y disgyblion oedran cynradd wedi cynyddu'n

raddol ers hynny ac yn agosáu at lefelau 2018-2019. Nid yw cyfraddau presenoldeb y disgyblion oedran uwchradd wedi gwella i'r un graddau ac maent wedi lleihau dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae absenoldebau parhaus wedi cynyddu dros yr un cyfnod. Mae arweinwyr yn gweithredu'n briodol drwy fonitro presenoldeb disgyblion ac ymateb yn amserol pan mae pryderon yn codi. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da yn gyson ac yn defnyddio gwobrau yn addas i annog disgyblion i fynychu'n rheolaidd. Ceir ystod o ymyraethau graddedig i adnabod a goresgyn rhwystrau rhag mynychu'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio'n amserol â theuluoedd, yr awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r ymyraethau hyn bob amser yn cael digon o effaith ar bresenoldeb disgyblion oed uwchradd, yn enwedig, ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau dipyn yn is na phresenoldeb eu cyfoedion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn. Rhoddir hyfforddiant cyson i'r holl staff ar faterion diogelu, gan gynnwys sut i ymateb i bryderon, atal radicaliaeth ac adnabod camdriniaeth. Mae systemau cadarn ar waith i gofnodi ac ymateb i unrhyw bryderon, ac mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth amserol i ddisgyblion, yn ôl yr angen. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwylliant cadarnhaol o ddiogelu ar draws yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion sydd ag ADY. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn cydweithio'n bwrpasol â staff, rhieni ac asiantaethau allanol i drafod anghenion y disgyblion hyn ac i benderfynu ar yr ymyraethau mwyaf addas ar eu cyfer. Trwy graffu ar waith a defnyddio gwybodaeth o asesiadau disgyblion, mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion sydd ag ADY yn briodol. Lle mae'r arferion gorau, mae cymorth ychwanegol yn gosod sylfaen gadarn i'r disgyblion hyn ac yn eu cynorthwyo'n effeithiol i ddatblygu eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw gweithgareddau o fewn y sesiynau dysgu bob amser yn diwallu anghenion y disgyblion sydd ag ADY yn ddigon effeithiol. Dros amser, mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad ym medrau lleiafrif o ddisgyblion sydd ag ADY.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod o gyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol, yn ogystal â rhai sy'n datblygu eu medrau arwain. Mae'r rhain yn cynnwys yr amryw glybiau a theithiau preswyl sy'n ennyn eu diddordebau yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion sydd ar bwyllgorau llais y disgybl yn elwa o'r cyfleoedd gwerthfawr i ddylanwadu ar agweddau o waith a bywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor lles yn codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion o bwysigrwydd iechyd meddwl yn effeithiol yn ystod gwasanaethau ysgol gyfan.

Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd ymroddgar sy'n rhoi pwyslais clir ar les, parch a chreu ymdeimlad o berthyn. Mae hi'n angerddol am sicrhau bod Ysgol Bro Idris yn ysgol hapus. Gyda chefnogaeth tîm brwdfrydig ac egnïol o uwch arweinwyr ar draws safleoedd niferus yr ysgol, mae hi'n meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu fel un sefydliad pob oed. Caiff rolau a chyfrifoldebau arweinwyr eu dosbarthu'n briodol, ac mae ethos cadarn o waith tîm ar draws yr ysgol.

Mae gan arweinwyr brosesau clir ar gyfer gwerthuso perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau rheolaidd sy'n rhoi cyfleoedd defnyddiol i arweinwyr gydweithio ar draws grwpiau oedran a safleoedd. Mae gweithgareddau gwerthuso wedi'u seilio'n ddefnyddiol ar ystyried tystiolaeth uniongyrchol, fel craffu ar waith ac arsylwi addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn tueddu i ganolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a disgwyliadau'r ysgol. At ei gilydd, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar ddatblygiad medrau a chynnydd pynciol disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso yn ddigon cadarn i nodi ychydig o feysydd pwysig sydd angen eu gwella.

Er bod arweinwyr yn aml yn nodi blaenoriaethau strategol eang addas, yn gyffredinol, nid yw'r camau y maent yn eu nodi er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn ddigon miniog. Nid ydynt yn ddigon penodol i egluro'r hyn y mae'n ofynnol i staff allweddol ei gyflawni, yn enwedig o ran newidiadau i addysgeg. Lle mae arweinwyr wedi nodi'n gywir fod angen gwneud gwelliannau mewn meysydd penodol, nid yw'r camau a gymerir bob amser yn arwain at newid yn ddigon cyflym.

Mae arweinwyr ar wahanol lefelau yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau bod trefniadau ymarferol ar draws y safleoedd yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Maent yn cynnal sesiynau briffio a thrafodaethau defnyddiol am ddigwyddiadau sydd ar ddod, materion yn ymwneud â'r safleoedd, staffio ac anghenion disgyblion unigol. Serch hyn, nid yw'r trefniadau hyn yn rhoi digon o sylw i rai materion pwysig fel nodweddion addysgu effeithiol ac effaith hyn ar safonau.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer adolygu datblygiad proffesiynol staff. Mae arweinwyr perthnasol yn cydlynu cyfleoedd datblygu proffesiynol addas ar gyfer staff, gan dalu sylw priodol i flaenoriaethau'r ysgol, yn enwedig i gefnogi lles disgyblion. Mewn ychydig o achosion, mae'r cyfleoedd hyn yn dylanwadu'n briodol ar agweddau penodol o'r addysgu, fel cryfhau'r sbardunau i ysgogi disgyblion ar gychwyn sesiynau. Mae arweinwyr yn gweithio'n fwriadus mewn partneriaeth ag ysgolion eraill; er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi dechrau cydweithio ar wella agweddau o'r ddarpariaeth gan gynnwys medrau darllen disgyblion.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rhoi pwyslais addas ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae pwyslais clir a llwyddiannus ar hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae'r ysgol yn blaenoriaethu lliniaru effaith tlodi. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i leihau rhwystrau rhag dysgu a sicrhau bod disgyblion o deuluoedd incwm isel yn cael cyfleoedd teg i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn dda drwy berthnasoedd gwaith agos â disgyblion a'u teuluoedd ac yn darparu ystod eang o gymorth wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda gwisg ysgol, adnoddau dysgu a chynhwysion ar gyfer gwersi bwyd, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu offeryn.

At ei gilydd, mae'r llywodraethwyr yn rhoi her a chymorth addas i'r ysgol. Maent yn gweithredu'n briodol fel cyfeillion beirniadol ac yn gweithio'n ddiwyd trwy ystod addas o is-bwyllgorau. Un enghraifft sy'n dangos sut mae llywodraethwyr wedi cynorthwyo uwch arweinwyr i gyflawni newid yn effeithiol yw'r weithdrefn a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar gyfer rheoli'r defnydd o ffonau symudol. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad mesuradwy yn nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o ganlyniad i ymddygiad anffafriol. Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl wrth hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er bod gwarged sylweddol yn y gyllideb, nid yw llywodraethwyr yn craffu'n ddigon rheolaidd nac yn ddigon trylwyr ar sefyllfa ariannol yr ysgol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Er bod gwarged sylweddol yn y gyllideb, nid yw'r llywodraethwyr yn craffu'n ddigon rheolaidd nac yn ddigon trylwyr ar sefyllfa ariannol yr ysgol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026